# Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

**2023 dsc 1**

## RHAN 1

Y CYNGOR PARTNERIAETH GYMDEITHASOL

*Ei sefydlu a'i ddiben*

### 5 Enwebu aelodau penodedig

(1) Cyn penodi cynrychiolwyr cyflogwyr, rhaid i'r Prif Weinidog geisio enwebiadau gan bersonau neu gyrff y mae'r Prif Weinidog yn ystyried eu bod yn cynrychioli barn y categorïau o gyflogwr y cyfeirir atynt yn adran 3.

(2) Cyn penodi cynrychiolwyr gweithwyr, rhaid i'r Prif Weinidog geisio enwebiadau gan y corff sy'n cynrychioli undebau llafur yng Nghymru a adnabyddir fel Wales TUC Cymru.

(3) Wrth benodi cynrychiolwyr cyflogwyr, rhaid i'r Prif Weinidog roi sylw i unrhyw enwebiadau a wnaed o dan is-adran (1).

(4) Wrth benodi cynrychiolwyr gweithwyr, ni chaiff y Prif Weinidog ond penodi unigolion sydd wedi eu henwebu o dan is-adran (2).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 48(1)**

**I2** A. 5 mewn grym ar 29.7.2023 gan O.S. 2023/794, **ergl. 2(e)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 29/07/2023.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, Adran 5.